*Gareth Hughes*

**Cymeriadau'r Pasg**

**Clodfori Mair, Mam Iesu**

**Darllen Luc 1:26–56; Mathew 1:18–25**

Ni chaiff Mair lawer o sylw yn yr efengylau, ond erbyn hyn y mae hi yn bwysig ryfeddol o fewn yr Eglwys Gristnogol, yn arbennig yr Eglwys Babyddol a'r Eglwys Uniongred yn Rwsia, Gwlad Groeg, ac Ethiopia. Sonia Ioan amdani mewn priodas yng Nghana Galilea, pan alwodd hi sylw Iesu at brinder y gwin. Dywed Ioan hefyd ei bod wrth y Groes a bod ei mab wedi ei chyflwyno i ofal y 'disgybl annwyl', a'i dygodd yn ei hiraeth a'i phrofedigaeth i'w gartref. Dywed Luc yn Llyfr yr Actau ei bod hi yn Jerwsalem gyda'r disgyblion ychydig wedi'r Croeshoeliad (Actau 1:14).

Saif Mair bellach yn symbol o'r fam ar ei gorau. Lluniodd yr emynydd W. Rhys Nicholas englyn cofiadwy i'w fam:

'Gwên siriol oedd ei golud – a gweini'n
Ddi-gŵyn oedd ei gwynfyd;
Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd,
A lle bu hon mae gwell byd.'

Mae gennym garol hyfryd o waith dau frawd i'r Fendigaid Fair. Ysgrifennwyd y geiriau gan y Parchedig J. H. Williams a'r gerddoriaeth gan y cerddor, Meirion Williams. Eglwyswr oedd J. H. Williams, a'r gwir yw mai Eglwyswyr a Phabyddion at ei gilydd sydd wedi rhoi'r lle pwysig i Mair yn eu litwrgi. Mae Eglwys Rufain yn wahanol i'r Eglwysi Protestannaidd. Rhennir Cristnogion i ddau ddosbarth, y rhai cyffredin a'r rhai sydd wedi eu galw gan Dduw i fod yn saint. Ac i'r Saint y perthyn Mair.

Bu raid iddi ddioddef yn dawel wrth droed Croes Calfaria.

'Fendigaid Fam, pwy ŵyr dy loes
wrth weld dy Fab yn dwyn y groes,
pan wylaist ddagrau chwerwaf d'oes
Henffych well.'

Cafodd hi dystio iddo yn ei dagrau, ac o fewn tri diwrnod gwelodd y Mab yn dryllio pyrth y bedd ac yn rhoddi gobaith diderfyn i'r Eglwys Gristnogol fyd-eang am yr ugain canrif nesaf.

***D. Ben Rees***